# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 11 Mawrth 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda

(185)v6

1 **Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**Cwestiwn Brys**
**Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ganlyniadau'r modiwlau TGAU Saesneg a gafodd eu cymryd ym mis Ionawr?

2 **Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

3 **Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Moderneiddio Amaethyddiaeth yng Nghymru: Systemau ar-lein i Ffermwyr (30 munud)**

4 **Datganiad gan y Gweinidog Cyllid: Cynnydd ar Wella Caffael Cyhoeddus (30 munud)**

5 **Dadl: Yr Ail Gyllideb Atodol 2013-14 (30 munud)**

**NDM5433 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 20.30, yn cymeradwyo'r Ail Gyllideb Atodol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013-14 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ddydd Mawrth, 11 Chwefror 2014.

Troednodyn:

Yn unol â'r darpariaethau perthnasol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 20, mae'r Gyllideb Atodol yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

(i) y datganiad ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan adran 125(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru;

(ii) yr adnoddau y cytunwyd arnynt gan y Trysorlys ar gyfer cyllideb bloc Cymru yn y flwyddyn ariannol y mae'r cynnig yn ymwneud â hi;

(iii) cysoniad rhwng yr adnoddau a ddyrannwyd ar gyfer cyllideb bloc Cymru gan y Trysorlys a'r adnoddau yr awdurdodir eu defnyddio yn y cynnig;

(iv) cysoniad rhwng y symiau amcangyfrifol sydd i'w talu i Gronfa Gyfunol Cymru gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r symiau yr awdurdodir eu talu o'r Gronfa yn y cynnig; a

(v) cysoniad rhwng yr adnoddau i'w hawdurdodi o dan adran 125(1)(a) a (b) o'r Ddeddf a'r symiau yr awdurdodir eu talu o Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 125(1)(c).

Mae'r wybodaeth ychwanegol isod wedi'i darparu i'r Aelodau:

- nodyn yn egluro'r prif wahaniaethau rhwng y cynllun hwn a'r rhai blaenorol.

**Dogfennau Ategol**
Ail Gyllideb Atodol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013-14
Cyllideb Atodol Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2013-14 - Memorandwm Esboniadol
Y Gwasanaeth Ymchwil, Papur Ymchwil ar yr Ail Gyllideb Atodol 2013-14

Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Graffu ar Gynnig y Gyllideb Atodol 2013-14

6 **Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 i amrywio trefn ystyried gwelliannau'r Cyfnod Adrodd i'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (5 munud)**

**NDM5446 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni i'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn y Cyfnod Adrodd yn y drefn ganlynol:

a) adrannau 2-79

b) atodlen 1

c) adrannau 80 -137

d) atodlen 2

e) adrannau 138-173

f) atodlen 3

g) adrannau 174 - 194

h) adran 1

i)Teitl Hir

**Cyfnod Pleidleisio**

7 **Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Addysg (Cymru) (120 mins)**
Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.

**Mae'r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl a byddant yn cael eu trafod fel a ganlyn:**

**1.Enw Cyngor y Gweithlu Addysg**

20, 2, 24, 25, 26

**2. Nodau a swyddogaethau'r Cyngor**

21, 3, 58

**3. Hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus**

49, 50, 54

**4. Ffioedd cofrestru**

51

**5. Gweithdrefnau deddfwriaethol (argymhellion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol)**

28, 29, 30, 31, 32, 33, 34, 35, 36, 37, 38, 39, 40, 41, 42, 43, 44, 45, 46, 47, 48

**6. Sefydlu a gwerthuso**

4

**7. Swyddogaethau disgyblu**

22, 5, 6, 7, 23, 10

**8. Deddf Addysg 1996: diffiniadau**

8, 9, 11, 13, 14, 15, 16, 17, 18

**9. Dyddiadau gwyliau ysgol**

27

**10. Cyllid ar gyfer grantiau**

52, 53, 55

**11. Ymestyn cofrestru ar gyfer gweithwyr ieuenctid**

56, 57

**12. Technegol**

12

**13. Teitl hir**

19, 1

**Dogfennau Ategol**
Bil Addysg (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli
Grwpio Gwelliannau

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 12 Mawrth 2014

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 6 Mawrth 2014 i'w hateb ar 11 Mawrth 2014

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith toriadau cyllid ar y gwasanaeth iechyd yng ngogledd Cymru? OAQ(4)1546(FM)**W**

**2. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)**: Beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i liniaru effaith y dreth ystafell wely? OAQ(4)1550(FM)

**3. David Rees (Aberafan)**: Sut y mae Llywodraeth Cymru yn ysgogi twf economaidd yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)1547(FM)

**4. Elin Jones (Ceredigion)**: Beth yw polisi Llywodraeth Cymru o ran sicrhau gwasanaeth trên amlach o Aberystwyth? OAQ(4)1540(FM)**W**

**5. Eluned Parrott (Canol De Cymru)**: Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynyddu'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus? OAQ(4)1544(FM)

**6. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion a wnaed yn ail adroddiad y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf? OAQ(4)1543(FM)

**7. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyllid GIG Cymru? OAQ(4)1535(FM)

**8. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am atgyfeiriadau gan feddygon teulu ar gyfer y rheini yr amheuir bod ganddynt ganser? OAQ(4)1538(FM)

**9. William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i Gylchffordd Cymru yng Nglyn Ebwy? OAQ(4)1542(FM)

**10. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am asesiad Llywodraeth Cymru o'r effaith y mae diwygio lles yn ei chael ar bobl Cymru? OAQ(4)1549(FM)

**11. Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fynediad at ofal sylfaenol yng Nghymru? OAQ(4)1551(FM)

**12. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i adeiladu ar statws Cymru fel Cenedl Masnach Deg? OAQ(4)1539(FM)

**13. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaed o ran datblygu technoleg feddygol yn y gwasanaeth iechyd? OAQ(4)1545(FM)

**14. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am adroddiad y panel annibynnol ar leoliad Canolfan Is-ranbarthol ar gyfer Gofal Dwys i'r Newydd-anedig yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)1548(FM)**W**

**15. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi twristiaeth yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)1534(FM)

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Dydd Mawrth 18 Mawrth 2014 a dydd Mercher 19 Mawrth 2014**
**Dydd Mawrth 25 Mawrth 2014 a dydd Mercher 26 Mawrth 2014**
**Dydd Mawrth 1 Ebrill a dydd Mercher 2 Ebrill 2014**
*********************************************************************

**Dydd Mawrth 18 Mawrth 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Dadl: Adroddiad y Grŵp Arbenigol ar Amrywiaeth ym maes Llywodraeth Leol (60 munud)
- Dadl: Y Rhaglen Ddeddfwriaethol (60 munud)
- Dadl y Cyfnod Adrodd ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (150 munud)
  Os bydd y Cynulliad yn cytuno ar y cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn ymddangos yn y cynnig. Os nad yw'r Cynulliad yn cytuno ar y cynnig, caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn ymddangos yn y Bil.

**Dydd Mercher 19 Mawrth 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Datganiad gan Darren Millar: Cyflwyno Bil arfaethedig Aelod – Bil Safleodd Carafannau Gwyliau (Cymru) (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (120 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Paul Davies (Preseli Sir Benfro) (30 munud)

**Dydd Mawrth 25 Mawrth 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Prif Weinidog: Datganiad Polisi am yr Iaith Gymraeg ( 30 munud)
- Rheoliadau Atal Twyll Tai Cymdeithasol (Darganfod Twyll) (Cymru) 2014 (15 munud)
- Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2014 (15 munud)
- Dadl: Darparu Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru (60 munud)
- Dadl: Mynd i'r Afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol sy'n ymwneud â Thai (60 munud)
- Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Addysg (Cymru) (15 munud)

**Dydd Mercher 26 Mawrth 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl fer – Julie James (Gorllewin Abertawe) (30 munud)

**Dydd Mawrth 1 Ebrill 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Cynnydd o ran Sicrhau Twf: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod ung Nghymru (30 munud)
- Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu'r Pwyllgor Cynghori Ar Brisio Gwelliannau a Materion Hawliau Tenantiaid) 2014 (15 munud)
- Cynnig i gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Tai (Cymru) (60 munud)
- Dadl Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (15 munud)

**Dydd Mercher 2 Ebrill 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.5 i benodi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (15 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar yr Ymchwiliad i Rywogaethau Goresgynnol Estron (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Aled Roberts (Gogledd Cymru) (30 munud)